



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion Heb eu Cadarnhau
Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd Iechyd
Cyhoeddus Cymru
Cyfarfod Cyhoeddus 13 Mehefin 2023, 14:00
Cynhaliwyd yn 3.2 CQ2 a drwy Microsoft Teams**

Yn Bresennol:		
Sian Griffiths	(SG)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus)
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) (Ymunodd am 15:43)
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Chyfleusterau Digidol)
Hefyd yn Bresennol:		
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Polisi ac Iechyd Rhyngwladol/Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd
Anne Beegan	(AB)	Archwilio Cymru
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd Cyhoeddus
Fliss Bennee	(FB)	Pennaeth Data
Julie Bishop	(JB)	Cyfarwyddwr Gwella Iechyd (Ar gyfer Eitem 4)
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu Bwrdd
Tom Connor	(TC)	Pennaeth Rhaglen Genomeg Iechyd Cyhoeddus (Ar gyfer Eitem 9)
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr (Ymunodd am 14:10)
Ashley Gould	(AG)	Cyfarwyddwr Rhaglen – Uned Gwyddor Ymddygiad/Ymgynghorydd
Rebecca Hill	(RH)	Uwch Arbenigwr Iechyd Cyhoeddus
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (Ymunodd am 15:25)
Elen De Lacy	(EDL)	Rheolwr Ymchwil a Datblygu Iechyd Cyhoeddus (Ymunodd am 14:50)

Louisa Nolan	(LN)	Pennaeth Gwyddor Data, Y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth (Ymunodd am 14:07)
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd y Bwrdd (Gadawodd am 15:30)
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd Staff (Ymunodd am 15:00)

Ymddiheuriadau

Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
------------------------	-------	--

Ysgrifenyddiaeth

Andrew Morton	(AM)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
---------------	------	-------------------------

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00

KRIC 1/2023.06.13 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod gan groesawu pawb a oedd yn bresennol, gan nodi'r ymddiheuriadau a gafwyd.

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol ym mis Medi 2023.

Nododd y Pwyllgor yr ymddiheuriadau.

KRIC 2/2023.06.13 Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

KRIC 3/2023.06.13 Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi

Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2023.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y camau gweithredu agored yn y cofnod o gamau gweithredu, a **nododd** fod y lliw coch yn dangos cam gweithredu ble roedd y dyddiad cyflawni penodedig wedi mynd heibio, neu gam yr oedd angen ymateb iddo:

KRIC 2022/07: Datblygiad ymchwil academiaidd i iechyd cyhoeddus yng Nghymru:

- Dywedodd IB y ffurfiwyd grŵp llywio i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer ymchwil academiaidd i iechyd cyhoeddus yng Nghymru. Roedd

uwch-academyddion wedi'u penodi, a byddai'r grŵp, sy'n cynnwys y Prif Swyddog Meddygol, yn adrodd i'r Pwyllgor maes o law. Cytunwyd y dylid cau'r cam gweithredu ar y sail hon.

- Byddai IB yn dosbarthu Cylch Gorchwyl y Grŵp Llywio i'r Pwyllgor.

Camau Gweithredu: IB

KRIC 2022/04: Datblygu ymhellach gysylltiadau gyda'r Brifysgol Agored.

- Dywedodd IB fod porth e-ddysgu Iechyd Cyhoeddus Cymru y Brifysgol Agored yn fyw. Cytunwyd y dylid cau'r cam gweithredu ar y sail hon.
- Dywedodd IB y byddai angen trefniadau cyfathrebu i roi cyhoeddusrwydd i'r cyrsiau sydd ar gael.

KRIC 2023/02: Sesiwn Graffu Fanwl: Ymchwil a Chydraddoldeb:

- Dywedodd IB fod cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru, a chynigiodd y dylid rhoi diweddariad cynhwysfawr yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi. Cytunwyd bod y cam gweithredu hwn yn parhau ar agor, ac estynnwyd y dyddiad targed i 13 Medi 2023

Camau Gweithredu: IB

KRIC 2023/03: Diweddariad ar y Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso:

- Dywedodd IB ei fod yn bwriadu rhoi diweddariad yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi yn egluro sut roedd gwaith James Linde wedi llywio'r blaenoriaethau wrth ddatblygu'r Strategaeth. Cytunwyd bod y cam gweithredu hwn yn parhau ar agor, ac estynnwyd y dyddiad targed i 13 Medi 2023.

Camau Gweithredu: IB

Cymeradwyodd y Pwyllgor y dylid cau camau gweithredu KRIC 2022/04 a KRIC 2022/07 yn y Cofnod o Gamau Gweithredu, a **chyperadwywyd** estyniad i 13 Medi 2023 ar gyfer camau gweithredu KRIC 2023/02 a KRIC 2023/03.

KRIC 4/2023.06.13

Sesiwn Graffu Fanwl: Hyrwyddo Ymddygiad Iach

Cyflwynodd IB y Cyflwyniad Hyrwyddo Ymddygiad Iach, gan ganolbwyntio ar y graddau yr oedd gan y sefydliad y systemau data, yr ymchwil a'r gwerthusiadau priodol ar waith i fonitro effaith a rôl y Sefydliad yn effeithiol fel arweinydd system o ran hyrwyddo ymddygiad iach.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- A oedd agweddau cyffredin yn bodoli rhwng carfannau mewn grwpiau amrywiol, a sut y gellid defnyddio'r data hynny orau. Dywedodd JB wrth y Pwyllgor fod dangosydd cenedlaethol yn bodoli a oedd yn gwneud cofnod o aelodau'r boblogaeth sydd â dau ymddygiad iach neu lai; byddai

angen gwaith pellach i werthuso darnau o waith arfaethedig yn y maes hwn.

- Awgrymwyd data seicograffig fel maes i'w ddatblygu yn y Sefydliad; byddai'n fwy heriol cydnabod casglu data cywir yn y maes hwn.
- Cyfeiriwyd at ffocws Llywodraeth Cymru ar yr agenda Gwrth-hiliol, a'r nod o sicrhau bod Cymru yn wlad Wrth-hiliol erbyn 2030. Tynnodd y Pwyllgor sylw at bwysigrwydd dogfennu profiadau bywyd systematig y boblogaeth fel ffordd o ymgysylltu â chymunedau, grwpiau o unigolion a grwpiau oedran penodol.
- Ystyriwyd sut y gellid ymchwilio i ddata o'r grwpiau hyn i gefnogi camau ymyrryd ataliol.
- Dywedodd IB wrth y Pwyllgor y byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid coladu data o wahanol ffynonellau; roedd adolygiad ar y gweill ar hyn o bryd i ddatblygu system o rannu data. Pe bai data'n dangos bod dull penodol mewn un ardal yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad iach, byddai cynllun peilot ar raddfa fach yn cael ei ddatblygu i werthuso a gwirio'r data cyn ystyried ei gyflwyno'n ehangach.

Diolchodd SG i'r tîm am y cyflwyniad cynhwysfawr, a chafodd y Pwyllgor sicrwydd o'r cyflwyniad.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r gwaith hwn yn parhau i gael ei fonitro gan y Pwyllgor yn rheolaidd.

Camau Gweithredu: IB/LB

KRIC 5/2023.06.13

Materion i'w Cymeradwyo

KRIC 5.1/2023.06.13

Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso

Cyflwynodd IB y Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso gan amlinellu sut y datblygwyd y strategaeth o ran y broses ddatblygu.

Cyflwynwyd y Strategaeth i'w chymeradwyo ac, yn dilyn gwaith alinio o ran yr arddull a'r fformatio, byddai'n cael ei chyflwyno i'r Bwrdd i'w chadarnhau, a hynny fel rhan o Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 27 Gorffennaf 2023.

Dywedodd EDL wrth y Pwyllgor fod y Strategaeth wedi'i dosbarthu'n eang yn fewnol er mwyn sicrhau cyfatebiaeth, a'i bod hefyd yn cyd-fynd â Fframwaith Ymchwil a Datblygu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Pwysigrwydd cydweithio a sut roedd y Strategaeth yn cyd-fynd â dogfennau a phrosesau eraill y Sefydliad
- Hygyrchedd i bawb yn y Sefydliad
- Pwysigrwydd ceisio cyllid o ffynonellau ariannu amrywiol
- Cyfrannu yn y dyfodol ar raddfa ehangach i sicrhau effaith ar iechyd a llesiant.

Cymeradwydd y Pwyllgor y Strategaeth yn amodol ar unrhyw newidiadau terfynol i'r fformat a'r arddull cyn i'r Strategaeth gael ei chyflwyno yn Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Gwybodaeth i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 27 Gorffennaf 2023 er sicrwydd.

Camau Gweithredu: IB

KRIC 5.2/2023.06.13 | Strategaeth Digidol a Data

Cyflwynodd IB y Strategaeth Digidol a Data. Nododd fod sylwadau a gafwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ac yn sgil yr ymgynghoriad eang ledled y Sefydliad wedi'u cynnwys, gan gynnwys adolygiad gan yr Awdurdod Dylunio a chan y Tîm Busnes Gweithredol.

Cyflwynwyd y Strategaeth i'w chymeradwyo, ac wedi i faterion yn ymwneud ag arddull a fformatio gael eu hunioni, byddai'n cael ei chyflwyno i'r Bwrdd i'w chadarnhau fel rhan o Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 27 Gorffennaf 2023.

Cynlluniwyd y Strategaeth i gefnogi dull Cymru Gyfan o ymdrin â materion Digidol a Data, ac i ddiwallu anghenion y Sefydliad a darparu gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus i Gymru wrth reoli gwasanaethau TG yn effeithlon. Roedd yn strategaeth hyblyg a byddai'n gweithio'n dda gyda phrosiectau ar draws y sefydliad gan gynnwys yr Adnodd Data Cenedlaethol, Banc Data SAIL a materion sy'n dod i'r amlwg o ran Deallusrwydd Artiffisial.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Ieithoedd rhaglennu cyfrifiadurol, Tân, Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau (API) a safonau rhyngwladol eraill – dim ond ar ôl cynnal trafodaeth bellach i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn cyflawni'r gofynion a ddisgwylir y dylid cydnabod yr ieithoedd rhaglennu, cymwysiadau a rhyngwynebau hyn yn y Strategaeth.
- Roedd staff wedi croesawu'r canlyniadau a gyflawnwyd gyda chyfarpar a gweithdrefnau digidol a data newydd; gwnaethant ddysgu sgiliau newydd a gweithio'n fwy effeithlon. Nodwyd gwersi pellach a ddysgwyd ar draws y Sefydliad, a sicrhawyd cyfatebiaeth â'r Agenda Newid.
- Sut y gallai'r sefydliad ddefnyddio'r Addewid Pobl i ddenu mwy o raddedigion Cyfrifiadureg sy'n chwilio am waith. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo gweithio hyblyg yn y sefydliad, 'Gweithio yn y Ffordd Sy'n Gweithio Orau', hawl i wyliau, sydd oll yn ffactorau allweddol i gystadlu â'r sector preifat.
- Awgrymwyd y dylid ystyried prentisiaethau fel ffordd o annog a datblygu talentau pobl ar ddechrau eu gyrfa, gyda'r gobaith o'u meithrin i dyfu a datblygu ymhellach yn y Sefydliad.
- Yr angen i ystyried pobl sy'n methu â defnyddio technoleg ddigidol neu bobl nad ydynt yn gyfforddus yn defnyddio technoleg ddigidol ar gyfer eu hanghenion gofal iechyd. Roedd y Strategaeth wedi'i dylunio gan ddefnyddio dull aml-sianel a oedd yn golygu y gellid ymgysylltu â'r holl

grwpiau waeth beth fo'u gallu i ddefnyddio cyfrifiadur. Awgrymwyd y dylid cysylltu â Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

- Soniwyd bod tlodi digidol yn bryder mawr i lawer o bobl, a dylid ystyried hyn ymhellach.

Cymeradwydd y Pwyllgor y Strategaeth yn amodol ar unrhyw newidiadau fformatio ac arddull terfynol i'w cyflwyno i'r Bwrdd i'w cadarnhau fel rhan o Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 27 Gorffennaf 2023.

Camau Gweithredu: IB/SG

KRIC 6/2023.06.13

Egwyl

KRIC 7/2023.06.13

DESW: Diweddariad ar raglenni Darganfod/Alffa

Darparodd FB ddiweddariad llafar ar raglenni Darganfod ac Alffa Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW), gan dynnu sylw at y canlynol:

- Ymgynghorwyd â defnyddwyr o bob rhan o'r gwasanaeth yn ystod y cam Darganfod, a nodwyd pryder bod nifer y cleifion nad oeddent yn mynychu apwyntiadau yn arwain at wastraffu amser staff a mwy o amser aros i bob claf.
- Roedd y wybodaeth yn dangos bod cleifion yn ystyried DESW yn wyneb cyhoeddus gwasanaeth llawer mwy; byddai cam Alffa yn ymchwilio i sut y gallai DESW integreiddio â gweddill y darparwyr gwasanaethau gofal llygaid diabetig.
- Roedd gwasanaeth DESW yn dibynnu ar waith helaeth o ran mewnbynnu data â llaw ac anfon llythyrau allan. Yn sgil y gwaith Darganfod, nodwyd pedwar maes allweddol yng nghyfnod Alffa lle roedd gwaith ffisegol yn effeithio ar y gwasanaeth:
 - atgoffa cleifion am eu hapwyntiadau
 - gallu cleifion i weld a newid eu hapwyntiad
 - mewnbynnu data ar y system yn awtomatig
 - defnyddio ap GIG Cymru sy'n cael ei ddatblygu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
- Roedd gwaith Alffa yn canolbwyntio ar ddau faes; dadansoddiad busnes yn nodi meysydd allweddol eraill sy'n peri pryder; ac archwiliad o'r bensaerniaeth dechnegol i ddeall llif data drwy'r system.
- Argymhellwyd y dylid cael un system archebu ar gyfer yr holl wasanaethau sgrinio gyda negeseuon testun yn atgoffa cleifion, ac roedd ymchwil yn cael ei wneud i ddull mwy cost-effeithiol o anfon llythyrau.
- Treialwyd algorithm Power Automate gydag atgyfeiriadau gan Feddygfeydd, a chanfuwyd ei fod yn gywir 99.2% o'r amser, sy'n gyfradd llawer uwch na'r hyn a gofnodwyd gyda chofnodion ffisegol. Roedd hyn yn cyfateb i arbed 4,000 o oriau'r flwyddyn o gymharu â gwaith cofnodi ffisegol.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- A oedd modd awtomeiddio'r linc o feddygfeydd. Nid oedd y llwybr drwy DHCW ar gael, ac roedd tîm FB wrthi'n edrych ar ddull amgen gyda'r Is-adran Gofal Sylfaenol i arbed amser i safleoedd Gofal Sylfaenol a DESW.
- Yr effaith ar staff, a chadarnhaodd IB nad oedd y defnydd cynyddol o systemau awtomataidd yn effeithio'n negyddol ar staff; byddai'r amser a gâi e arbed drwy ddefnyddio'r systemau newydd yn galluogi staff i ganolbwyntio ar waith arall.
- Awgrymwyd y dylid ymchwilio i fanteision Porth Clinigol Cymru fel modd o rannu canlyniadau diagnostig gyda phartneriaid a chleifion.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** yn sgil y cynnydd a wnaed yng nghanam Darganfod y prosiect a'r treialon a arweiniodd at gam Alffa. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad pellach ar y gwaith sy'n mynd rhagddo mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Camau Gweithredu: IB

KRIC 8/2023.06.13 Rheoli Risgiau

Cyflwynodd SS yr adroddiad ar Risg Strategol 5 a oedd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn crynhoi Cofrestr Risg Strategol 2022/23, Risg 5, a oedd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn. Disodlwyd Risg 5 gan y Gofrestr Risg Strategol ddiwygiedig newydd a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mai 2023. Cafodd y risgiau o Gofrestr 2022-23 eu gosod yn y Gofrestr Risgiau Strategol newydd a chafodd y camau gweithredu a oedd yn weddill eu trosglwyddo i'r Gofrestr newydd, eu cau neu eu hisraddio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw Risgiau Strategol o fewn ei gylch gwaith yn y gofrestr newydd.

Ystyriodd y Pwyllgor y Gofrestr o Risgiau Strategol a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor, a **chafodd sicrwydd** bod risgiau Strategol y Sefydliad o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cael eu rheoli'n briodol.

KRIC 9/2023.06.13 Genomeg

Fe wnaeth MK gyflwyno TCo ac eglurodd fod y Rhaglen Genomeg wedi'i datblygu mewn ymateb i Strategaeth a chynllun 5 mlynedd Llywodraeth Cymru i sefydlu genomeg fel ffordd o wella iechyd cyhoeddus. Byddai'r Sefydliad yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Genomeg Cymru Gyfan ac yn cefnogi trefniadau partneriaeth yng Nghymru ym maes Genomeg.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar Genomeg a oedd yn cynnwys:

- Cyflwyniad i Genomeg.
- Elfennau o'r ecosystem Genomeg sy'n berthnasol i'r Sefydliad.
- Gwasanaethau Genomeg sydd eisoes yn weithredol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Y rhaglen Genomeg arfaethedig.
- Cynlluniau ar gyfer Genomeg yn y dyfodol.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Pwysigrwydd monitro ac ymateb i faterion yn ymwneud â llywodraethu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â gwaith genomau dynol, sut mae Genomeg yn gweithio yn unol â'r Strategaeth Data a sut yr effeithiodd hyn ar drefniadau llywodraethu gwybodaeth.
- A ellid dadansoddi'r canlyniadau drwy deallusrwydd artiffisial. Dywedodd TCo wrth y Pwyllgor mai dim ond i bennu'r cyffur mwyaf priodol i'w ddefnyddio wrth drin canserau ar ôl i'r dilyniant genom gael ei nodi drwy brosesau arferol (h.y. nid deallusrwydd artiffisial) y defnyddir deallusrwydd artiffisial yn rheolaidd.
- Y cyfleoedd ar gyfer cydweithio y tu mewn a'r tu allan i'r Sefydliad, a sut y gallai data o ffynonellau agored gefnogi hyn.
- Yr angen i ystyried materion moesegol yn unol â phrotocolau sefydledig, megis rhannu data canlyniadau. Dywedwyd wrth y Pwyllgor am ddatblygiad strategaeth foeseg a fyddai'n cwmpasu'r Sefydliad cyfan.
- Ystyriwyd sefydlu gwasanaeth epigenomeg. Byddai hyn yn golygu y gellid astudio effaith cemegau ar DNA (dynol), gan astudio sut y gellid troi genynnau ymlaen neu i ffwrdd a sut y gellid addasu ymddygiadau o gymryd risgiau, a hynny'n seiliedig ar gyfansoddiad genetig unrhyw unigolyn.

Diolchodd SG i TCo am ei gyflwyniad cynhwysfawr, a gofynnodd am ddiweddariad yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr.

Camau Gweithredu: IB/LB

Fe wnaeth y Pwyllgor

- **Nodi'r** weledigaeth arfaethedig o 'sbarduno datblygiad gwasanaethau genomeg o'r claf i'r boblogaeth, i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl Cymru' ar gyfer Rhaglen Genomeg Iechyd Cyhoeddus.
- **Ystyried** potensial genomeg iechyd cyhoeddus a'r materion allweddol a nodwyd wrth ddatblygu'r rhaglen, gan nodi'r ffaith bod elfennau TG/Digidol wrth wraidd gweithgareddau genomeg. [Cynghori ar y rhanddeiliaid allweddol y dylid eu cynnwys yn strwythur y rhaglen.]
- **Ystyried** yr ymdrechion i ddatblygu dulliau cydweithio o fewn ICC a sefydlu'r rhaglen fel endid sydd wirioneddol yn draws-sefydliadol. [Cynghori ar y camau nesaf ac awgrymu amserlen briodol ar gyfer cyflwyno cynllun yn amlinellu uchelgais ac amcanion y rhaglen.]
-

KRIC 10/2023.06.13

Trefniadau Llywodraethu'r Pwyllgor

**KRIC 10.1/
2023.06.13**

**Diweddariad Chwemisol yn rhoi Crynodeb o'r
Polisiâu**

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y blaenoriaethu a'r cynnydd a wnaed i adolygu polisiâu, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

KRIC 10.2/ 2023.06.13	Cynllun Gwaith y Pwyllgor
Ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd, ac fe'i nodwyd .	
KRIC 11/2023.06.13	Eitemau i'w Nodi
Nid oedd unrhyw eitemau i'w nodi.	
KRIC 12/2023.06.13	Materion Gweinyddol i Gloi
Unrhyw fater arall: Dim.	
Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi eu hadborth ar y cyfarfod drwy e-bost i LB, gan gynnwys yr hyn a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i wella arnynt.	
Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 13 Medi 2023 am 09.30.	
Daeth y cyfarfod i ben am 16:59	

DRAFT